









# Arweiniad i **Fasnachu Achlysurol** ym Marchnad Abertawe

MARCHNAD ABERTAWE SWANSEA MARKET

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council






# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Lleoliadau stondinau masnachu achlysurol | 3 |
| 2. | Cyfleusterau'r stondinau masnachu achlysurol | 4 |
| 3. | Cynnyrch addas ar gyfer masnachu achlysurol | 6 |
| 4. | Ffi masnachu achlysurol | 8 |
| 5. | Gwerthiant eitemau bwyd | 8 |
| 6. | Amserau masnachu yn y farchnad | 8 |
| 7. | Cyfleusterau yn y farchnad sydd ar gael i fasnachwyr achlysurol | 9 |
| 8. | Rheolau ar gyfer masnachwyr achlysurol | 10 |
| 9. | Cydymffurfio ag iechyd a diogelwch | 11 |
| 10. | Cymorth marchnata ar gyfer masnachwyr achlysurol | 12 |
| 11. | Cyngor a chymorth pellach | 12 |
| 12. | Gwneud cais am stondin masnachu achlysurol | 13 |
| 13. | Cysylltwch â ni | 13 |

# Arweiniad i Fasnachu Achlysurol ym Marchnad Abertawe

Mae masnachu achlysurol ym Marchnad Abertawe yn cynnig cyfle i brofi syniad busnes newydd neu fasnachu ar sail ad hoc mewn cyrchfan siopa sefydledig a llwyddiannus. Nid oes unrhyw ymrwymiad tymor hir ac mae'r gyfradd ddyddiol yn cynnig gwerth da am arian.

**Os ydych chi'n meddwl bod hwn yn rhywbeth a fyddai'n addas i chi, darllenwch ymlaen!**

## 1. Lleoliadau stondinau masnachu achlysurol

Ar hyn o bryd mae un stondin bwrpasol ac un llain bwrdd ar gael i fasnachwyr, ond mae cynlluniau ar y gweill i greu lleoedd masnachu achlysurol addas ychwanegol yn y Farchnad.

- Mae **stondin achlysurol A** yng nghanol y farchnad ger y stondin gocos.
- Mae **stondin achlysurol B** ger mynedfa'r farchnad oddi ar Stryd Rhydychen.



# 2. Cyfleusterau'r stondinau masnachu achlysurol

## Stondin Achlysurol A

- Maint y stondin yw 3m wrth 3m ac mae'n cynnwys 3 uned fodiwlaidd sy'n mesur 1.6m x 0.8m yr un.
- Gellir defnyddio'r unedau hyn fel cownteri neu gellir eu cyflunio gyda silffoedd hyd at uchder o 1.4m (gan gynnwys eitemau arddangos).
- Mae un o'r unedau ar lefel is er mwyn sicrhau hygyrchedd i bawb.
- Mae'r stondin ar ffurf cynllun agored ac mae ganddi ddwy sinc.
- Mae uned fach y gellir ei chloi ar gyfer eitemau personol.
- Mae cyflenwad trydan 16 amp ar gael gyda 4 soced pŵer y gellir eu defnyddio am ffi fach (£2 y dydd).
- Anogir masnachwyr i arddangos eu harwyddion eu hunain drwy ddefnyddio'r cyfleuster arwyddion sydd ar gael.









## Stondin Achlysurol B

- Darperir bwrdd masnachu sydd oddeutu 1.8m x 1.2m. Er nad yw'n cynnig yr un cyfleusterau â Stondin Achlysurol A, mae'n llain boblogaidd iawn oherwydd ei lleoliad a nifer yr ymwelwyr.



# 3. Cynnyrch addas ar gyfer masnachu achlysurol

Mae Marchnad Abertawe yn cynnig ystod eang o nwyddau a gwasanaethau, felly rydym yn chwilio am fasnachwyr a all gynnig rhywbeth ychydig yn wahanol.

Dyma rai syniadau ar gyfer cynnyrch a/neu wasanaethau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda yn y farchnad ar hyn o bryd. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a hoffem glywed eich syniadau!

- Eitemau crefft pwrpasol (ac eithrio gemwaith)
- Anrhegion a theganau i blant
- Gwirodydd, gwinoedd a chyrfau arbenigol
- Cludfwyd o safon nad yw eisoes ar gael yn y farchnad
- Offerynnau cerdd, finyl, casetiau, CDs etc
- Nwyddau cartref
- Siopau trin gwallt/barbwyr

*Mae cwsmeriaid yn cael cyfle i ymlacio a mwynhau eu bwyd/diod cludfwyd yng Ngardd y Farchnad, lleoliad newydd, croesawgar i eistedd yng nghanol y Farchnad.*



Os nad ydych yn gyfarwydd â'r stondinau sydd yn y farchnad ar hyn o bryd, cymerwch gip yma: www.swanseaindoormarket.co.uk/stondinaur-farchnad/?lang=cy

## Nwyddau/Gwasanaethau Wedi'u Gwahardd

Ni fydd ceisiadau am nwyddau a gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynrychioli'n dda yn y Farchnad neu sy'n gyferbyniol i nodau ac amcanion Cyngor Abertawe'n cael eu derbyn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i gynnyrch e-sigaréts, gamblo (gan gynnwys gwerthu tocynnau raffl), a chynrychiolwyr cwmnïau sy'n defnyddio strategaethau marchnata niferus fel Body Shop a Herbalife.

## Hyrwyddo busnes

Os ydych chi'n chwilio am lain i hyrwyddo'ch busnes neu sefydliad, mae cynlluniau ar gael yng Nghanol y Ddinas a Gardd y Farchnad. Ffoniwch **01792 633090** am fanylion














# 4. Ffi masnachu achlysurol

Y ffi ddyddiol yw £26.50. Os oes angen trydan arnoch, bydd rhaid talu £2 ychwanegol y dydd.

Gellir archebu dyddiad hyd at 3 wythnos ymlaen llaw.
Rhaid talu cyn i chi ddechrau masnachu.

# 5. Gwerthiant eitemau bwyd

Os hoffech gynnig bwyd, mae gan **Stondin Achlysurol A** sinciau er mwyn gwneud hyn.

Sylwer y bydd yn rhaid i chi gadarnhau'ch Rhif Cofrestru Busnes Bwyd a'r awdurdod lleol y cofrestrwyd eich busnes gydag ef. Os nad ydych wedi cofrestru fel busnes bwyd eto, gallwch ddarparu hyn cyn i chi ddechrau masnachu.

Mae trydan ar gael am ffi fach ond bydd angen i chi ddod â'ch offer eich hun.  Bydd angen tystysgrif PAT (Prawf Dyfeisiau Cludadwy) gyfredol ar gyfer yr holl offer.

Mae'n bwysig bod yn ystyriol o fasnachwyr a siopwyr o'ch cwmpas felly os ydych chi'n bwriadu coginio ar y safle, bydd angen i chi roi mesurau ar waith i leihau arogleuon cyhyd ag y bo modd. Fel arall, efallai bydd yn well gennych baratoi eich bwyd oddi ar y safle a'i weini o'r stondin.





# 6. Amserau masnachu yn y farchnad

Mae'r farchnad ar agor i gwsmeriaid rhwng 8.00am a 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Mae hefyd ar agor ar ddydd Sul yn ystod cyfnod y Nadolig.

Mae'n agor yn gynharach i fasnachwyr fel bod amser iddynt osod eu stondinau. Mae'n agor o 6am ar bob diwrnod masnachu ac yn cau am 5.30pm.

# 7. Cyfleusterau yn y farchnad sydd ar gael i fasnachwyr achlysurol

Gall yr holl fasnachwyr ddefnyddio'r gilfach lwytho yng nghefn y farchnad. Mae'r gilfach ar gyfer llwytho/dadlwytho yn unig a chaiff ei monitro gan asiant rheoli parcio. Mae arwyddion clir wedi'u gosod fel bod masnachwyr yn ymwybodol o hyn a'r cosbau ariannol cysylltiedig.

Gellir cyrraedd y gilfach lwytho o Nelson Street. Mae bolardiau awtomatig yno sy'n atal mynediad i gerbydau rhwng 10.30am a 4.00pm felly dim ond y tu allan i'r oriau hynny y gallwch ddefnyddio'r gilfach barcio.

Mae toiledau i gwsmeriaid ar gael yn y farchnad a gall masnachwyr achlysurol eu defnyddio.

Cyflogir swyddog diogelwch i batrolio neuadd y farchnad drwy gydol y dydd ac mae system teledu cylch cyfyng ar waith.

Mae gan Farchnad Abertawe hefyd oruchwyliwr ar y safle gyda thîm sy'n helpu i gadw'r farchnad yn lân ac yn daclus drwy gydol y dydd. Mae bob amser rhywun ar gael i helpu gydag unrhyw ymholiadau.








# 8. Rheolau ar gyfer masnachwyr achlysurol

Fel gyda'r holl drefniadau masnachu yn y farchnad, mae rhai rheolau ar gyfer masnachu achlysurol sy'n hawdd eu dilyn ac er budd pawb.

- Cyn i'ch archeb gael ei chadarnhau, bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n werth o leiaf £5 miliwn.
- Os ydych yn fusnes bwyd, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth eich bod wedi cofrestru gyda'ch awdurdod lleol.
- Os ydych yn cynnig gwerthu alcohol, bydd angen Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro (TEN) arnoch gan Gyngor Abertawe, y gellir gwneud cais ar ei gyfer ar-lein. Mae hyn yn ychwanegol i roi cadarnhad bod gennych Drwydded Bersonol.
- Oni bai fod gennych archeb am ddiwrnodau olynol, sicrhewch fod eich holl nwyddau'n cael eu symud ar ddiwedd y diwrnod masnachu.
- Os ydych yn masnachu am ddiwrnodau olynol, nid oes yn rhaid i chi symud eich nwyddau bob nos, ond sylwer eich bod yn gadael unrhyw beth ar y safle ar eich menter eich hun.
- Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r cownteri a'r ardal o fewn y stondin yn unig. Ni ddylech osod unrhyw beth yn yr eil.
- Byddwch yn wyliadwrus o fasnachwyr gerllaw a chadwch sŵn i lefel resymol e.e. dim radios na defnyddio offer swnllyd fel peiriannau cymysgu am gyfnodau hir.
- Rhaid i enw'ch busnes a'ch manylion cyswllt fod yn amlwg ar y stondin ar bob adeg.
- Rhaid cynnal llinellau golwg i stondinau cyfagos bob amser. O ganlyniad, ni ddylech arddangos eitemau ar lefel uwch na 1.4m.

- Pan fyddwch yn gadael y stondin, sicrhewch ei bod yn cael ei glanhau'n drylwyr a'i gadael yn ei chyflwr gwreiddiol.

## 9. Cydymffurfio ag iechyd a diogelwch

Fel gyda phob stondin, mae'n hanfodol bod masnachwyr achlysurol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf gan gynnwys Safonau Masnach, Diogelwch Tân ac Iechyd a Diogelwch.

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, bydd angen i chi gwblhau Rhestr Wirio Iechyd a Diogelwch sy'n cynnwys y canlynol:

- Er diogelwch, rhaid defnyddio cyllyll ac offer miniog yn briodol a'u storio'n ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Cyfrifoldeb pawb yw diogelwch tân yn y farchnad ac mae'n hollbwysig. Felly:
    - Mae'n rhaid i bob masnachwr ddeall a dilyn Cynllun Gweithredu mewn Argyfwng y Farchnad, sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod driliau tân a sefyllfaoedd argyfwng go iawn. Darperir copi o hwn i chi ar eich diwrnod hyfforddi cyntaf.
    - Ni chaniateir gwresogyddion.
    - Dim ond un cebl estyniad y gellir ei ddefnyddio.
    - Rhaid bod gan bob darn o offer (gan gynnwys y cebl estyniad) dystysgrif PAT gyfredol.
    - Ni chaniateir cynhwysyddion nwy.
    - Os ydych chi'n coginio ar y safle bydd angen i chi sicrhau bod gennych ddiffoddwyr tân a/neu flancedi tân digonol a phriodol.
    - Ni chaniateir fflamau agored heb oruchwyliaeth.
    - Dylid gosod offer coginio'n ddiogel ar sylfaen anhylosg wedi'i hinswleiddio, a'u hamgylchynu ar dair ochr gan sgriniau o ddeunydd tebyg.
    - Rhaid cadw unrhyw ddeunydd fflamadwy ymhell oddi wrth ffynonellau tanio.

## 10. Cymorth marchnata ar gyfer masnachwyr achlysurol

Rydyn ni wir eisiau helpu i wneud eich profiad masnachu ym Marchnad Abertawe yn un llwyddiannus. Gallwn helpu i hyrwyddo'ch stondin drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys Facebook, Tik Tok, Instagram ac X. Mae ein cynnwys wedi'i weld dros 500,000 o weithiau yn 2024 ac rydym yn parhau i gynyddu nifer ein dilynwyr, sef 21,500 ar hyn o bryd.

Mae ymgyrchoedd amlgyfrwng hefyd yn cael eu creu i hyrwyddo Marchnad Abertawe yn ei chyfanrwydd; mae hyn yn cynnwys ar y teledu, ar y radio, ar sianeli cyfryngau ar-lein ac yn yr awyr agored.

## 11. Cyngor a chymorth bellach

Mae llawer o wybodaeth ar gael ar-lein i helpu busnesau i lwyddo, gan gynnwys busnesau newydd.

Dyma rai ffynonellau a all fod o ddefnydd i chi:

- NMTF (Ffederasiwn Masnachwyr Marchnadoedd Cenedlaethol):
    - Arweiniad Dechrau Arni i Fasnachwr yn y Farchnad
      www.nmtf.co.uk/info/sim
- Busnes Cymru
    - Dechrau a Chynllunio Busnes
      www.businesswales.gov.wales/starting-up
- Start-ups
    - Sut i sefydlu stondin yn y farchnad:
      www.startups.co.uk/guides/how-to-start-a-market-stall



## 12. Gwneud cais am stondin masnachu achlysurol

Os hoffech wneud cais am stondin masnachu achlysurol, ewch i'n ffurflen ar-lein www.abertawe.gov.uk/masnachuachlysurolynyfarchnad a llenwch y manylion. Dywedwch wrthym gymaint ag y gallwch am eich busnes a'r cynnyrch yr hoffech ei werthu. Lanlwythwch luniau neu nodwch ddolen i'ch gwefan os oes un gennych.

Bydd eich cais yn cael ei adolygu o fewn 5 niwrnod gwaith a byddwn yn cysylltu â chi.

**Edrychwn ymlaen at glywed gennych!**

## 13. Cysylltwch â ni:

**marchnadabertawe@abertawe.gov.uk / 01792 654296**

**www.swanseaindoormarket.co.uk/?lang=cy**

@swanseamrkt
@swanseamarket
@swanseamrkt
@swansea.market

# Dewch i ymuno â ni!






Rhifyn: V1 Ebrill 2024